# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 21 CHWEFROR 2024 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd); N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd); P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd); C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd); E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad); C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau); S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), ac E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr); R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol); M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), a G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro); L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Dirprwy Swyddog Monitro); M. Williams (Syrfëwr Rheoli); H. Delonnette (Uwch Swyddog Polisi); S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY); L. Downey (Rheolwr Gwasanaeth AD Dros Dro); K. Peters (Rheolwr Gwasanaeth – Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau); R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden); A. Lewis (Swyddog Prosiect Trawsnewid); P. Cooke (Rheolwr Trawsnewid); B. Winstanley (Pennaeth Gwasanaethau Tir ac Eiddo); C. Adams (Rheolwr Grŵp Peirianneg Priffyrdd); M. Goodger (Prif Beiriannydd); M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), a J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### RECORDIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, a byddai recordiad ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio. Cliciwch Yma i Wylio.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr) a Steve Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog A151).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION – DYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

## 4. COFNODION – Y CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD GLOWYR Y COED DUON – DYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan 3 Ebrill 2024.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi. Trwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

## 6. CEFNOGAETH I DDISGYBLION SY'N METHU Â MYNYCHU'R YSGOL (A ELWID GYNT YN DIWTORA GARTREF)

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am y model presennol o 'diwtora gartref' ac a oedd yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer cynigion ar gyfer newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol.

Wrth ymateb i ymholiad, rhoddwyd sicrwydd na fyddai disgwyl i diwtoriaid a ddyrennir i'r ysgolion gyflenwi ar ran athrawon. Sicrhawyd y Cabinet hefyd fod angen cefnogi pob ysgol a bydd yr holl ysgolion nad ydynt wedi cael tiwtor yn cael eu cefnogi drwy gytundeb ariannol, sy'n caniatáu iddynt ddatblygu'r un dull gweithredu.

Nodwyd bod yr adroddiad yn nodi nad yw tiwtoriaid o blaid gweithio mewn lleoliad ysgol ac yn teimlo na fydd o fudd i'r disgybl. Dywedodd y Swyddog fod gwaith i'w wneud o hyd gyda'r tiwtoriaid a'r Undebau.

Yn dilyn pryderon fe roddwyd sicrwydd, ar gyfer y plant hynny nad ydynt, am resymau lles meddygol ac emosiynol, yn gallu mynychu'r ysgol, y byddai darpariaeth o hyd i dderbyn tiwtora gartref.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod adborth cadarnhaol wedi dod i law gan athrawon a thiwtoriaid dwy ysgol a oedd yn dilyn llwybr, a oedd yn cynnwys yr ysgolion yn nodi'r disgyblion sydd angen cymorth, yn hytrach na'r Awdurdod Lleol.

Yn dilyn ymholiad, dywedwyd wrth y Cabinet fod sawl ymgynghoriad wedi'i gynnal gan y penaethiaid ar draws yr ysgolion ac maent i gyd wedi cydnabod bod hwn yn gyfle iddynt wella'r cynnig o ddysgu a gwella eu dulliau o gynnwys a lles. Mae'r ysgolion hefyd wedi cael sicrwydd y gellir newid dulliau gweithredu priodol. Er enghraifft, bydd disgyblion ym mlwyddyn 11 yn parhau â'u ffordd bresennol o ddysgu i leihau unrhyw darfu. Dywedwyd wrth y Cabinet hefyd na fyddai presenoldeb cyffredinol yr ysgol yn cael ei effeithio gan fod gwahanol godau presenoldeb yn cael eu defnyddio.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms fe gynhaliwyd pleidlais lafar a chytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r cynnig i weithredu model diwygiedig o gefnogi disgyblion sy'n derbyn tiwtora a gyfeiriwyd gan yr ysgol er mwyn eu cefnogi drwy'r ysgol.

**7. CANLLAWIAU CYFRANIADAU BUDD CYMUNEDOL – AR GYFER PROSIECTAU A DATBLYGIADAU SYDD Â'R POTENSIAL AR GYFER EFFAITH GYMUNEDOL SYLWEDDOL**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Canllawiau Cyfraniadau Budd Cymunedol ar gyfer prosiectau a datblygiadau sydd â'r potensial ar gyfer effaith gymunedol sylweddol. Mae'r rhain yn tynnu sylw at rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat, mewn partneriaeth â chymunedau lleol, i sicrhau buddion ystyrlon a chynaliadwy.

Nododd y Cabinet fod sawl cyfle am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cyfeiriodd y Swyddog at yr angen i ychwanegu argymhelliad ychwanegol yn 3.2 o adroddiad y Swyddogion a sicrhaodd y Cabinet fod yr argymhelliad hwn wedi ffurfio rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol ar yr adroddiad. Ar ôl ystyried hyn, cynigiodd ac eiliodd y Cabinet yr argymhelliad ychwanegol i ddarllen: Bod y Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo'r canllawiau. Nod y canllawiau yw sefydlu safbwynt y Cyngor ar safonau ar gyfer datblygwyr wrth ddarparu Cyfraniadau Budd Cymunedol (CBCs) i gymunedau lleol yn y Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn ymholiad, roedd y Cabinet yn falch o nodi mai Caerffili yw un o'r Awdurdodau Lleol cyntaf i edrych ar gynlluniau fel hyn ac mae eisoes wedi dechrau rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yn y gobaith y bydd hyn yn dod yn ddull Cymru gyfan.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhelliad ychwanegol yn 3.2 yn amodol ar gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Nodi'r sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor Craffu.

2. Bod y Canllawiau Cyfraniadau Budd Cymunedol, sy'n ceisio sefydlu safbwynt y Cynghorau ar safonau ar gyfer datblygwyr wrth ddarparu Cyfraniadau Budd Cymunedol (CBCs) i gymunedau lleol yn y Fwrdeistref Sirol, yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo.

**8. GWAITH RHEOLI ERYDIAD CWRS DŴR NANT CYLLA**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r cabinet mewn perthynas ag erydiad cwrs dŵr Nant Cylla, Ystrad Mynach. Roedd hefyd yn gofyn am awdurdodiad am wariant o £270k ar gyfer dylunio cynllun sefydlogi a chronfa wrth gefn o £100k ar gyfer gwaith sefydlogi dros dro pe bai'r rhain yn ofynnol tra bod y cynllun llawn yn cael ei ddatblygu a'i gaffael.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch beth fyddai'r goblygiadau pe na bai'r Cabinet yn cytuno i'r gwaith a amlinellir yn yr adroddiad. Dywedwyd wrth y Cabinet y bydd y gwaith arfaethedig yn ysgafnhau'r pwysau ar y cwrs dŵr, ac os na wneir y gwaith hwn, mae perygl y bydd methiant

a'r cwrs dŵr yn creu golchiad sylweddol, ac y bydd rhwystrau yn y cwrs, a allai halogi afon Rhymni, wrth gwrs.

Gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch a fyddai cymorth gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith. Cadarnhaodd y Swyddog nad oes arian gan Lywodraeth Cymru a fyddai ar gael ar gyfer y math yma o waith. Cyfrifoldeb cyfreithiol y perchennog tir i gynnal ei gwrs dŵr fyddai gwaith o'r fath fel arfer. Ond mae potensial y gallai CNC ddarparu rhywfaint o gyllid.

Tynnwyd sylw at argymhelliad 3.3 o'r adroddiad lle ceisiodd y Cabinet eglurhad pellach ac esboniad am yr argymhelliad hwn. Eglurodd y Swyddog yr effeithir ar dair rhan o'r cwrs dŵr sy'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad. Mae rhannau o'r ardal yr effeithir arnynt yn eiddo i CBSC. Fodd bynnag, mae rhannau o'r banc a oedd gynt yn eiddo i CBSC bellach yn eiddo i berchnogion tir. Ond pe bai'r Cyngor ond yn gwneud y gwaith ar dir y Cyngor / perchennog tir, byddai potensial ar gyfer datrysiad gwaith darn. Felly, argymhellir bod y Cyngor yn talu costau'r atgyweiriadau. Ond ni fyddai gan berchnogion yr eiddo hawl i gael unrhyw iawndal am unrhyw adeilad allanol y gellir ei effeithio neu ei dynnu wedyn yn ystod y gwaith.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Bod y cyllid cyfalaf o tua £270k ar gael i Gyfadran yr Economi a'r Amgylchedd ar gyfer dyluniad manwl y cynllun. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn cyfalaf a glustnodwyd sy'n anrhwymedig.

2. Bod cronfa wrth gefn o £100k ar gael i Gyfadran yr Economi a'r Amgylchedd ar gyfer rhagor o waith sefydlogi dros dro os bydd angen y rhain cyn gweithredu'r cynllun llawn. Unwaith eto, cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn cyfalaf a glustnodwyd sy'n anrhwymedig.

3. Cytuno na chynigir iawndal i berchnogion eiddo / perchnogion tir mewn perthynas â symud strwythurau a adeiladwyd yn agos at frig y glannau a / neu sy'n rhychwantu'r cwrs dŵr, ond bydd CBSC yn comisiynu gwaith dylunio manwl ac adeiladu heb unrhyw gost i berchnogion eiddo / perchnogion tir

## 9. ADOLYGIAD O BONT DROED GORSAF CAERFFILI.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet ystyried yr opsiynau sydd ar gael ynghylch darpariaeth yn y dyfodol a chynigion amgen o groesfan reilffordd i gerddwyr yng Ngorsaf Reilffordd Caerffili.

Nododd y Cabinet fod y bont droed wedi cau'n swyddogol dan orchymyn dros dro ar 20 Gorffennaf 2023, a hynny am gyfnod o 6 mis i ddechrau. Mae'r bont ynghau er budd diogelwch y cyhoedd. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod adroddiad arolygu manwl yn cael ei baratoi.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ynghylch a yw Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn bwriadu trydaneiddio'r rheilffordd bresennol ac, os oedd cynlluniau i gyflawni'r gwaith hwn, beth fyddai'n digwydd i'r bont yn ystod y broses drydaneiddio. Eglurodd y Swyddog fod cynigion gan TrC i drydaneiddio'r llinell. Ond ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod yn derbyn y cynigion hynny a rhoddwyd dyddiad cau o fis Gorffennaf 2024 i wneud penderfyniad ar ddyfodol y bont.

Gofynnwyd am eglurhad pellach ar y pellter i dref Caerffili pe bai'r bont yn cael ei symud a beth fyddai'r gwahaniaeth pe bai'r bont newydd yn cydymffurfio â Mynediad Anabl. Dywedodd y Swyddog y byddai'r pellter yn 255m pe bai'r bont yn cael ei symud a phe bai'r bont yn cael ei disodli gan bont sy'n cydymffurfio â'r Mynediad Anabl gyda rampiau y naill ochr neu'r llall, byddai'r pellter yn 578metr.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion.

1. Ystyried cynnwys, opsiynau a gofynion cyfalaf yr adroddiad a chymeradwywyd opsiwn 4 fel y ffordd ymlaen. Tynnu'r bont yw'r opsiwn a ffefrir, gan nad yw amnewid/atgyweirio yn ateb cost-effeithiol pan fo llwybrau a chynigion amgen ar gael.

2. Cymeradwyo cyllid o £200,000 ar gyfer tynnu'r bont o gronfeydd wrth gefn cyfalaf a glustnodwyd sy'n anrhwymedig.

## 10. ADRODDIAD DATGARBONEIDDIO BLYNYDDOL TACHWEDD 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet am y gwaith a wnaed ar draws yr Awdurdod i gyflawni nodau'r Strategaeth Ddatgarboneiddio.

Ar 14 Mehefin 2023, cymeradwyodd y Cabinet 10 argymhelliad yn ymwneud â gweithredu'r Strategaeth Ddatgarboneiddio a'r Cynllun Gweithredu. Roedd yr argymhellion yn cynnwys adolygu'r Cynllun Gweithredu a pharatoi adroddiad cynnydd blynyddol.

Nododd y Cabinet fod y Cynllun Gweithredu wedi cael ei adolygu a bod nifer y camau gweithredu wedi gostwng o 122 i 76. Rhoddwyd diweddariad i'r Cabinet ar gynnydd y 76 o gamau.

Nododd y Cabinet ymhellach fod Gweithgorau wedi'u sefydlu i yrru pob un o'r pedwar maes ymlaen.

Yn dilyn ymholiad, rhoddwyd diweddariad i'r Cabinet ar sut mae Tai yn gwneud gwelliannau i wneud y llety'n fwy effeithlon o ran ynni. Un o'r gwelliannau yw ailosod ffenestri gyda gwydr triphlyg UVC.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod Bwrdeistref Sirol Caerffili bellach yn sefydliad carbon llythrennog lefel efydd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cymeradwyo ac, ar ffurf Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, fod y cynnydd a wnaed hyd yma ar y camau a nodir yn yr Adroddiad Datgarboneiddio Blynyddol yn cael ei nodi.

## 11. DYMCHWEL HEN YSGOL GYFUN PONTLLAN-FRAITH.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i adfer rhywfaint o'r gyllideb wreiddiol yn rhannol i gwblhau dymchwel a chlirio safle hen Ysgol Gyfun Pontllan-fraith.

Yn dilyn ymholiad, sicrhaodd y Swyddog y Cabinet na fyddai'r gwaith parhaus yn y CVL yn cael ei effeithio ac ni fyddai unrhyw effaith ar y gwaith ychwanegol a wneir yn hen Ysgol Gyfun Pontllan-fraith.

Nododd y Cabinet y byddai'r cyllid ar gyfer y gwaith ychwanegol yn cael ei ddefnyddio gan y Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf anrhwymedig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, gymeradwyo £310,000 pellach yn cael ei ddyrannu i ddymchwel a chlirio hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith.

## 12. PRAWF LLES Y CYHOEDD

Ystyriodd yr Aelodau Prawf Budd y Cyhoedd a daethant i'r casgliad, ar gydbwysedd, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn drech na buddiannau'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth a'r canlynol: -

PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y datgeliad tebygol iddynt o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 13. TREFNIANT GWIFREN PREIFAT RHWNG BRYN GROUP A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, fod argymhellion yn 3.1 a) i d) yn cael eu cymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 14.14pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 3 Ebrill 2024.